

## **Polisi Diogelwch Offer Gwaith**

1. Cyflwyniad
2. I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?
3. Y sefyllfa gyfreithiol
4. Cyfrifoldebau rheolaeth
5. Gweithdrefnau Prynu
6. Paratoi peirianwaith gosodedig
7. Asesiad Risg
8. Hyfforddiant Gweithwyr
9. Cynnal a Chadw ac Archwilio

### **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae'n bolisi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddarparu amgylchedd gweithio diogel i'n cyflogeion ar bob adeg. I'n helpu i wneud hyn, rydym wedi cyflwyno polisi sy'n cynnwys defnyddio unrhyw beiriannau (wedi eu prynu neu eu llogi) a fydd yn cael eu defnyddio o fewn ein sefydliad yn ddiogel.

### **2. I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?**

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cyfeirir at 'holl' fel 'gweithwyr' yn y polisi hwn).

### **3. Y sefyllfa gyfreithiol**

- 3.1 Mae'r Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (a adwaenir yn aml fel PUWER) yn ymofyn bod unrhyw offer yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer eu defnyddio yn y gwaith yn:
  - addas ar gyfer y defnydd bwriedig
  - yn gallu cael eu defnyddio yn ddiogel
  - yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel
  - yn cael eu harchwilio yn ôl yr angen
  - yn cael eu gwarchod yn effeithiol
  - ddim ond yn cael eu defnyddio gan weithredwyr sydd wedi derbyn digon o wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant.
- 3.2 Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol pan fyddwn yn prynu cyfarpar / offer newydd ein bod yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyflenwi Peiriannau (Diogelwch) 1992, fel y'u diwygiwyd 1994. Pan fyddwn yn mewnfario peiriannau o'r tu allan i'r UE, neu yn cynhyrchu peiriannau yn fewnol, rydym yn gyfan gwbl yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn. O dan unrhyw amgylchiadau, fel defnyddiwr peiriannau a brynwyd, rhaid i ni sicrhau eu bod wedi cael eu marcio gyda CE a bod ganddynt ddatganiad cydymffurfio.
- 3.3 Yn ychwanegol at y rheoliadau peiriannau / offer / cyfarpar gwaith cyffredinol hyn, mae'n rhaid i ni hefyd gydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Dirgrynu yn y Gwaith 2005. Maent yn benodol yn ymofyn i ni asesu risgiau dirgrynu a allai godi yn sgil defnyddio'r peiriannau penodol ac offer llaw trydanol. Er mwyn cydymffurfio, ein polisi yw y bydd

rhaid cynnal asesiad risg ar gyfer pob gweithgaredd lle bo dirgryniad yn bresennol. Lle adnabyddir hyn, bydd pob cam rhesymol yn cael eu cymryd er mwyn ei leihau.

- 3.4 Mae gofynion penodol eraill yn berthnasol i offer / cyfarpar codi, offer sy'n gweithredu o dan bwysau a chyfarpar nwy. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i gynnal archwiliadau statudol sy'n cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Eiddo a hefyd gwiriadau nwy a drefnir gennym ni gyda pheiriannydd GasSafe Cofrestredig.

#### **4. Cyfrifoldebau Rheolaeth**

- 4.1 Mae'n rhaid i reolwyr sydd â chyfrifoldeb am waith sy'n ymwneud â pheiriannau:

- sicrhau bod y peirianwaith cywir yn cael eu darparu ar gyfer y math o waith sy'n cael ei wneud
- sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal fel y'i disgrifir yn y Polisi hwn
- ymgynghori â staff pan fo peiriannau neu ddulliau gwaith newydd yn cael eu cyflwyno
- sicrhau y cyfyngir y defnydd o unrhyw beiriannau a allai fod yn beryglus i ddefnyddwyr awdurdodedig dros 18 oed sydd wedi cael eu hyfforddi yn unig
- sicrhau bod staff yn cael eu cyflenwi gydag offer/ cyfarpar diogelu personol (CDP) addas sy'n ffitio yn iawn yn unol â chanfyddiadau asesu risg, e.e. amddiffynwyr clustiau, gogls, anadlyddion, esgidiau diogelwch, bod yna rywle glân iddyn nhw gael eu storio a bod rhaglen o waith cynnal a chadw ac adnewyddu yn ei lle
- trefnu i staff gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau yn ddiogel ac ar gyfer delio â pheiriannau yn torri i lawr, rhwystrau, gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio, fel y bo'n briodol
- sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth addas ar ffurf arwyddion rhybuddio a chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer defnyddio'r offer yn ddiogel
- monitro bod arferion gweithio diogel yn cael eu dilyn, gan gynnwys bod y defnydd cywir yn cael ei wneud o giardiau, bod y peiriant priodol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith priodol, bod CDP yn cael ei wisgo, a'r defnydd o ffyn gwthio a jigiau
- sicrhau bod peiriannau yn cael eu cynnal yn gywir gan ddefnyddwyr o dan atodlen cynnal a chadw ataliol cynlluniedig, e.e. iro rheolaidd, gwagio llwch, amnewid tor-hylifau, newid llafnau, gwirio lefelau hylif a phwysau, brecio ac ati
- sicrhau fod gwiriadau addas / priodol yn cael eu gwneud ar beiriannau cyn defnyddio'r cyfarpar
- cynnal, neu ddirprwyo i berson cymwys, cynnal archwiliadau dyddiol / wythnosol / misol ar beiriannau gan gynnwys dyfeisiau stopio'r peiriant ar frys / mewn argyfwng, cyd-gloeadau, systemau ffotodrydanol, echdynnu llwch / mwg a dyfeisiau diogelwch eraill
- sicrhau, lle bo angen, bod peiriannau yn cael eu gwasanaethu a'u harchwilio yn allanol, gan gynnwys archwiliadau statudol, pan fo hynny'n berthnasol
- gweithredu system waith ddiogel ar gyfer gweithgareddau cynnal a chadw sy'n cynnwys ynysu peiriannau, draenio pŵer (os yn berthnasol), caniatáu amser i'r peiriant oeri (os yw'n berthnasol), cloi, tagio a, lle tybir bod hynny'n briodol, trwyddedau i weithio
- sicrhau bod gweithwyr yn gwybod sut i roi gwybod (adrodd) am ddiffygion a phroblemau gyda pheiriannau

- sefydlu system ar gyfer sicrhau na ddefnyddir offer penodol hyd nes y byddant wedi cael eu trwsio, fel bo'r angen, ac analluogi'r defnydd ohonynt
- ymchwilio i unrhyw ddamwain gyda pheiriannau yn unol â pholisi'r Awdurdod a gweithredu unrhyw welliannau sydd eu hangen
- gorfodi'r rheolau a chymryd camau disgyblu yn erbyn staff mewn achos o beidio â chydymffurfio difrifol neu fynych.

## 5. Gweithdrefnau Prynu

5.1 I'w ddilyn gan bob rheolwr sydd ag awdurdod i brynu. Y cam cyntaf yw llunio manyleb lawn o'r peiriant. Bydd hyn yn cynnwys manylion gosod, materion mynediad, maint, lefelau dirgryniad, pwysau'r peiriant (i sicrhau y gall y llawr gymryd y pwysau), gofynion pŵer a gwybodaeth am systemau echdynnu llwch / mygdarth. Yn ogystal â hyn, bydd y gofynion canlynol yn berthnasol i brynu offer newydd ac offer ail law. Gellir crynhoi'r gofynion fel a ganlyn:

- mae'n rhaid defnyddio cyflenwr adnabyddus a dibynadwy bob amser
- pan fo'r eitem ar gael gan fwy nag un cyflenwr, mae'n rhaid cael dyfynbrisiau
- os yw'r cyfarpar yn cael ei brynu y tu allan i'r D.U., mae'n rhaid cyflwyno datganiad o gydymffurfiaid â gofynion yr U.E.
- mae'n rhaid archwilio'r peiriannau i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr amgylchedd gwaith a fwriedir, gan ystyried amgylcheddau ymfflamychol neu amodau gwlyb, lle bo'n gymwys
- ni ddylid ond defnyddio cyflenwr sy'n gallu darparu cyfarwyddiadau gweithredu llawn. Os yw'n gyflenwr tramor, yna mae'n rhaid i'r cyfarwyddiadau gael eu cyfieithu i'r Saesneg
- mae'n rhaid i gyfarwyddiadau cynnal a chadw rheolaidd sylfaenol gael eu cynnwys yn Saesneg
- mae'n rhaid i arwyddion rhybudd a chyfarwyddiadau ar y peiriant nad ydynt yn cynnwys darluniau gael eu hysgrifennu yn Saesneg ac mae'n rhaid iddynt gynnwys cyfyngiadau diogelwch wrth ei ddefnyddio, e.e. llwyth gweithio diogel ar gyfer peiriant codi.

## 6. Gosod peiriannau sefydlog

6.1 Pan fydd cyfarpar newydd yn cael ei roi'n sownd yn ei le byddwn yn sicrhau bod digon o le i'w ddefnyddio'n ddiogel a'i fod yn sefydlog, e.e. drwy ei roi'n sownd i'r llawr neu fainc. Lle bo angen, bydd y llawr yn cael ei farcio i ddangos y man gwaith y mae'n rhaid ei gadw'n glir o rwystrau.

6.2 Bydd peiriannau o'r fath yn cael eu cysylltu â'r cyflenwad pŵer drwy ynysydd y gellir ei gloi. Bydd y rheolyddion cychwyn a stopio yn cael eu gosod fel bod yn rhaid, os bydd toriad pŵer neu pan fydd gard cyd-gloi ar gau, ailgychwyn y peiriant yn hytrach na'i fod yn ail-gychwyn yn awtomatig. Bydd botwm stop mewn argyfwng yn cael ei osod mewn man sy'n hawdd ei gyrraedd o fan gweithredu'r peiriant a bydd ei swyddogaeth wedi'i labelu'n glir.

6.3 Lle bydd defnydd o'r peiriant wedi'i gyfyngu i staff awdurdodedig a bod modd i bobl eraill fynd i'r man gwaith, bydd rhybudd yn cael ei arddangos sy'n nodi pwy sydd wedi'i awdurdodi i ddefnyddio'r peiriant. Bydd y peiriant hefyd yn cael ei gloi pan na fydd yn

cael ei ddefnyddio lle bo hynny'n ymarferol a dim ond y defnyddwyr awdurdodedig fydd yn gallu cael mynediad at y gorriad.

- 6.4 Byddwn yn sicrhau bod y goleuo'n addas i ddefnyddio'r peiriannau. Ar gyfer peiriannau â rhannau sy'n cylchdroi byddwn yn sicrhau nad yw'r goleuadau'n fflachio yn y fath fodd fel bod y peiriant yn ymddangos fel petai'n llonydd, h.y. effaith stroboscopic. Lle bo hynny yn peri pryder, bydd hanner y goleuadau fflwroleuol yn cael eu cysylltu â gwedd wahanol o'r cyflenwad.
- 6.5 Bydd arwyddion a hysbysiadau rhybudd yn cael eu harddangos i amlygu peryglon a thanlinellu gofynion diogelwch, megis Cyfarpar Diogelu Personol.

## **7. Asesiad Risg**

- 7.1 Cyn i unrhyw beiriant gael ei gyflwyno am y tro cyntaf, byddwn yn cynnal asesiad risg. Y diben yw canfod a oes unrhyw beryglon penodol yn gysylltiedig â'i ddefnydd yn ein gweithle. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys cyfyngiadau o ran gofod, lefelau sŵn neu giardiaid sy'n anymarferol o ystyried y defnydd a fwriedir o'r peiriant. Byddwn yn ymgynghori â staff neu eu cynrychiolwyr bryd hynny. Os nad yw'n rhesymol ymarferol i leihau neu gael gwared ar y peryglon, yna bydd yr asesiad risg yn disgrifio i staff sut yr ymdrinnir â'r peryglon hyn, e.e. drwy ddefnyddio cyfarpar amddiffyn y clyw. Bydd staff yn cael gwybod am ganfyddiadau'r asesiad risg.

## **8. Hyfforddiant cyflogeion**

- 8.1 Fel rhan o'n dyletswydd i gynnal systemau gwaith diogel, dim ond cyflogeion sydd wedi cael hyfforddiant fydd yn cael defnyddio'r peiriannau. Gall yr hyfforddiant gael ei ddarparu gan nifer o ffynonellau gan gynnwys ein cyflenwyr, yn ogystal â hyfforddiant yn y swydd gan ein staff ein hunain. Bydd cofnodion hyfforddiant staff yn cael eu cadw yn ffeiliau personél y cyflogeion unigol. Ar ben hynny, byddwn yn cynnal cofrestr o ddefnyddwyr hyfforddedig, a gellir ei diweddarau yn ôl yr angen.

## **9. Cynnal a chadw ac arolygu**

- 9.1 Bydd yr holl beiriannau yn cael eu cynnal a chadw a'u harolygu, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i weithio'n ddiogel. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o wiriadau mewnol a gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn ogystal â gwasanaethu cyfnodol gan ddarparwr arbenigol.
- 9.2 Ni fydd y gwaith cynnal a chadw ac arolygu ond yn cael ei wneud gan staff / contractwyr sy'n gymwys. Bydd amserlen cynnal a chadw ataliol yn cael ei pharatoi ar gyfer pob peiriant gan ystyried cyfarwyddiadau ac argymhellion y gwneuthurwr yn deillio o arolygiadau blaenorol ac ati.
- 9.3 Yn achos cyfarpar nwy, systemau gwasgedd a chyfarpar codi, bydd arolygiadau statudol yn cael eu trefnu yn ogystal â gwaith cynnal a chadw ac arolygu cyffredinol.
- 9.4 Rydym yn deall y gall anafiadau difrifol ddigwydd wrth gynnal a chadw peiriannau; felly, bydd gwaith o'r fath yn destun asesiad risg. Bydd systemau gwaith diogel yn cael eu dyfeisio i sicrhau bod y peiriannau yn cael eu hynysu'n effeithiol o ffynonellau pŵer a'u

draenio o bŵer cyn cael mynediad at ddibenion cynnal a chadw. Bydd trwyddedau i ymgymryd â'r gwaith yn cael eu cyflwyno cyn i'r gwaith ddechrau yn ôl yr angen.

- 9.5 Pan fyddwn yn llogi peiriannau ar sail hirdymor, byddwn yn cytuno ar y cyfrifoldebau cynnal a chadw ac arolygu gyda'r cyflenwr.
- 9.6 Bydd llafnau, disgiau a darnau sbâr eraill yn cael eu storio'n ofalus er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu difrodi.
- 9.7 Bydd cofnodion unrhyw waith cynnal a chadw ac atgyweiriadau arferol yn cael eu cadw am o leiaf tair blynedd.

*Gwybodaeth bellach*

*HSE: INDG 291 (rev 1), Darparu a defnyddio cyfarpar gwaith*

2016/06